# Lefel 2 Busnes (BTEC) (Amser Llawn)

Mae'r Dyfarniad Cyntaf BTEC Lefel 2 hwn mewn Busnes yn gwrs llawn amser, blwyddyn o hyd, wedi'i gynllunio ar gyfer myfyrwyr sy'n dymuno datblygu dealltwriaeth ddamcaniaethol ac ymarferol o wahanol agweddau ar fusnes.
Mae'r cymhwyster hwn yn cael ei gydnabod fel sylfaen i symud ymlaen i gymhwyster Lefel 3 neu ddod o hyd i waith. Mae'n gyfle gwych i gymryd y cam cyntaf i'r maes pwnc deinamig hwn a dysgu am entrepreneuriaeth, marchnata, a chyllid.
Bydd myfyrwyr yn cael y cyfle i ddysgu am fyd deinamig busnes a chânt eu hannog i feddwl fel entrepreneuriaid. Byddant yn dod i gysylltiad â llawer o arbenigeddau wrth ddysgu, megis Adnoddau Dynol, Cyllid, Gweinyddu, Rheolaeth, y Gyfraith a Marchnata.
I gyfoethogi'r cwrs ymhellach, bydd myfyrwyr yn ymgymryd ag uned digwyddiad; cynllunio, trefnu, mynychu, a gwerthuso eu cynnydd. Mae hyn yn darparu dilyniant rhagorol i lefel 3 neu gymwysterau eraill.
Yn olaf, bydd myfyrwyr yn cael y cyfle i wella eu Sgiliau Digidol, sy'n arf hollbwysig i unrhyw berson busnes ifanc yn y byd modern.

## Gofynion Mynediad

2 TGAU Gradd C neu uwch a/neu gymhwyster Lefel 1 addas ynghyd â chyfweliad.

## Rhagolygon Gyrfa

Mae'r cymhwyster hwn ar gyfer dysgwyr sydd am ddechrau gyrfa mewn busnes neu symud ymlaen i ddarpariaeth lefel 3. Byddai dilyniant llwyddiannus yn eich galluogi i wneud cais am brentisiaethau mewn manwerthu, gwasanaeth cwsmeriaid a menter.
Fel arall, efallai yr hoffech symud ymlaen i lefel 3 Busnes, neu feysydd galwedigaethol eraill fel Twristiaeth, y Cyfryngau neu DT.

## Modiwlau'r cwrs

Bydd y cwrs yn cynnwys y modiwlau canlynol:
Cyflwyniad i Fusnes
Cyllid ar gyfer Busnes

Menter yn y Byd Busnes
Hyrwyddo Brand

## Asesiad

Bydd myfyrwyr yn paratoi swm amrywiol o waith cwrs. Cwblheir asesiadau ysgrifenedig drwy gydol y cwrs, ymgymerir ag ymchwil, a bydd y gwaith o baratoi a chyflwyno'r darganfyddiadau ar ffurf ysgrifenedig a llafar, yn ogystal â chynnig nifer o elfennau ymarferol sy'n cadw'r cwrs yn ddiddorol ac yn ddifyr. Yn ogystal, mae un asesiad allanol i'w gwblhau.

## Costau Ychwanegol

Bydd rhai ymweliadau a theithiau trwy gydol y cwrs, gan gynnwys fel rhan o'r uned digwyddiadau, fodd bynnag bydd cost y rhain yn cael ei gadw mor isel â phosibl, yn enwedig unrhyw deithiau dydd gorfodol.

### DULL ASTUDIO
FT

### LLEOLIAD
Coleg Castell-nedd - 0330 818 8100

### HYD Y CWRS
1Y